

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2006 No. 2803**

**Rheoliadau Ffliw Adar (Mesurau Atal) (Cymru) 2006**

**Brechu adar sw**

- 9.—(1) Os yw'r amod ym mharagraff (2) wedi'i fodloni, caiff y Cynulliad Cenedlaethol—
- (a) brechu unrhyw adar mewn unrhyw swau y mae'n credu ei bod yn angenrheidiol eu brechu (ar ôl rhoi hysbysiad ysgrifenedig i feddianwyr y swau hynny);
  - (b) ei gwneud yn ofynnol (drwy hysbysiad ysgrifenedig i feddiannydd unrhyw sw) i unrhyw aderyn yn y sw gael ei frechu; neu
  - (c) trwyddedu meddiannydd sw i frechu unrhyw aderyn yn y sw.
- (2) Yr amod yw bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnal asesiad risg ac yn credu bod risg y byddai ffliw adar yn cael ei drosglwyddo i adar sw neu i gategorïau o'r adar hynny.
- (3) Fel rhan o'i asesiad risg, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol bwysu a mesur a yw sw—
- (a) ar hynt ymfudo;
  - (b) yn agos at unrhyw grynofa ddŵr lle gall adar mudol ymdyrru;
  - (c) wedi'i leoli mewn ardal lle mae dwysedd adar mudol yn uchel.
- (4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol bennu, mewn hysbysiad neu drwydded o dan y rheoliad hwn—
- (a) nifer a rhywogaeth yr adar sydd i'w brechu;
  - (b) yr amodau bioddiogelwch sydd i'w bodloni yn y sw neu unrhyw ran o'r sw;
  - (c) amodau ynglyn â storio brechlyn a'i roi.
- (5) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y brechu'n cael ei wneud yn unol â'r cynllun brechu ataliol a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan Erthygl 5 o Benderfyniad y Comisiwn 2006/474/EC ynghylch mesurau i atal ffliw adar pathogenig iawn a achosir gan firws ffliw A o'r is-deip H5N1 rhag ymledu i adar a gedwir mewn swau a mangreoedd cyrff, sefydliadau a chanolfannau a gymeradwywyd yn yr Aelod-wladwriaethau ac yn diddymu Penderfyniad [2005/744/EC\(1\)](#).

(1) OJ Rhif L187, 8.7.2006, t. 37. Mae copïau o' gynllun brechu ataliol y D.U. ar gael oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Yr Is-adran Atal a Rheoli Clefydau Ecsotig, 1A, Page Street, Llundain SW1P 4PQ ac yn <http://www.defra.gov.uk/animalh/diseases/notifiable/pdf/euuk-zooplan.pdf>.